PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: EBRILL 2004 - MAWRTH 2005

1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar y camau a gymerwyd ganddynt i gyflawni eu rhaglenni gwaith. Mae'r adroddiad yn crynhoi gwaith y Pwyllgor rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005.

2. AELODAETH

2.1 Ar hyn o bryd, Aelodau'r Pwyllgor yw: Alun Ffred Jones (Cadeirydd), Lorraine Barrett[1], Mick Bates, Glyn Davies, Irene James, Carwyn Jones (Gweinidog), Helen Mary Jones, Sandy Mewies[2], Carl Sargeant a Brynle Williams.

3. CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones, sef: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3.2 Amlinellir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cyfeirio at agweddau pwysig ar waith y Pwyllgor o dan y penawdau hyn.

4. GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA

4.1 Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd y Pwyllgor 11 cyfarfod ffurfiol ac aeth ar dri ymweliad fel rhan o'i ymchwiliadau polisi.

Datblygu polisïau (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

Ymchwiliad i dai fforddiadwy
Yn ei gyfarfod ar 5 Mai, cafodd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth i'w ymchwiliad cyntaf, sef 'Materion cynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad'.

Ymchwiliad i Dwbercwlosis mewn Gwartheg

[1] Etholwyd Lorraine Barrett yn aelod o'r Pwyllgor yn lle Jeff Cuthbert ar 25 Ionawr 2005.
[2] Etholwyd Sandy Mewies yn aelod o'r Pwyllgor yn lle Tamsin Dunwoody-Kneafsey ar 25 Ionawr 2005.

Cwblhaodd y Pwyllgor ei ymchwiliad i Dwbercwlosis mewn Gwartheg, ar ôl iddo drafod ei gasgliadau yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin a thrafod yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf. Yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd, cafodd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'w ymchwiliad.

Ymchwiliad i fodloni targedau tirlenwi ac ailgylchu
Cychwynnodd yr ymchwiliad yn ystod yr hydref 2004 pan gytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Yn ystod cyfarfod mis Tachwedd, bu'n trafod y trefniadau ar gyfer ymweld â chyfleusterau gwastraff a bu'n ymweld â nhw yn ystod mis Ionawr. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o wahanol dystion ag arbenigedd o ran ailgylchu, compostio ac ymchwil, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol, diwydiant, y sector cymunedol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

4.6 Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin, bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y camau i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'u goblygiadau i Gymru. Cafodd adroddiadau rheolaidd ar y broses drwy gydol y flwyddyn yn adroddiadau'r Gweinidog.

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

4.7 Cafodd y Pwyllgor adroddiad gan y Gweinidog ym mhob cyfarfod er mwyn iddo allu craffu'n rheolaidd ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'n gyfrifol amdanynt.

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (9.7 (iii*))*

4.8 Bu Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar 14 Mehefin a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar 8 Gorffennaf.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

4.9 Rhoddodd y Pwyllgor adroddiadau i'r cyfarfod llawn ar y ddeddfwriaeth a ganlyn[3]:

Deddfwriaeth sylfaenol
- Mesur yr Amgylchedd a Chymdogaethau Glân
- Y Mesur Drafft ar Les Anifeiliaid

Is-ddeddfwriaeth
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Cynlluniau Cymorth a Thaliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004

- Rheoliadau Prynu Tir Gorfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Prynu Tir Gorfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2004
- Gorchymyn Cynllun Atal Llifogydd Lleol Cymru (1996) (Diddymu) 2005
- Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Symudiadau Trawsffiniol) (Cymru) 2004
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005
- Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Mynedfa) (Cymru) 2005

Deddfwriaeth Ewropeaidd

4.10 Ym mis Chwefror 2004, cyflwynodd y Pwyllgor system ar gyfer mynd ati yn fwy rhagweithiol i graffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Cafodd dogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd a oedd yn berthnasol i bortffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac a adneuwyd yn Senedd y DU eu hystyried bob yn ail cyfarfod yn ystod 2004. Yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr, penderfynodd Panel y Cadeiryddion mai Rhaglen Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Deddfwriaeth a Gwaith fyddai'r man cychwyn ar gyfer nodi materion polisi i gadw llygad arnynt ac i graffu arnynt yn ystod y flwyddyn. Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenoriaethau yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2005. Nododd y Pwyllgor chwe mater i'w hystyried ymhellach ac i geisio dylanwadu arnynt: strategaethau thematig ar yr amgylchedd trefol, gwastraff, a'r amgylchedd morol; dogfen bolisi ar fioamrywiaeth; y Rheoliad Ewropeaidd ar Ddatblygu Gwledig; a'r Gyfarwyddeb REACH arfaethedig. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu manylion unrhyw drafodaethau yr oedd wedi'u cael ynghylch datblygiad y materion polisi/deddfwriaethol hyn ac unrhyw fewnbwn yr oedd wedi'i roi iddynt.

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

4.11 Amlinellodd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn ei gyfarfod ar 26 Mai a rhoddodd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))

4.12 Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at y Pwyllgor yn ystod y cyfnod o dan sylw.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

4.13 Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr y Pwyllgor ar benodiadau cyhoeddus ynghylch nifer o benodiadau i gyrff cyhoeddus. Etholwyd Sandy Mewies yn gynrychiolydd Penodiadau Cyhoeddus y Pwyllgor ar 2 Mawrth 2005 yn lle Tamsin Dunwoody-Kneafsey.

Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(v))

4.14 Ym mis Rhagfyr 2004, cyfeiriwyd Mesur yr Amgylchedd a Chymdogaethau Glân a'r Mesur Drafft ar Les Anifeiliaid at y Pwyllgor er mwyn iddo graffu arnynt (gweler uchod, para 4.9).

Y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (Rheol Sefydlog 17)

4.15 Cynhaliwyd pum cyfarfod yn ystod y cyfnod o dan sylw. Aethpwyd i'r afael ag wyth achos. Yn **Atodiad 1**, ceir adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005.

5. MATERION TRAWSBYNCIOL

Cyfle Cyfartal

5.1 Ar ran y Pwyllgor, cyfrannodd y Cadeirydd wybodaeth ffeithiol i adolygiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o brif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor wedi sicrhau bod iaith niwtral o ran rhyw yn cael ei defnyddio mewn papurau ac yn ystod ymweliadau ymchwilio.

Datblygu cynaliadwy

5.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyfarfod ar 26 Mai.

6. BLAENRAGLEN

6.1 Yn **Atodiad 2**, amgaeir blaenraglen waith strategol y Pwyllgor y cytunwyd arni ar ddechrau'r cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Mai 2005

ATODIAD 1

PWYLLGORAU PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: EBRILL 2004 - MAWRTH 2005

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio o fis Ebrill 2004 tan fis Mawrth 2005.

2. Aelodaeth

2.1 Etholir pob Pwyllgor o'r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grwp o apelau/geisiadau). Etholir yr aelodau o blith aelodau'r Panel Penderfyniadau Cynllunio, sy'n cynnwys yr Aelodau hynny o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad sydd wedi cael hyfforddiant pwrpasol.

3. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Amlinellir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn Rheol Sefydlog 17.

4. Cyfarfodydd

4.1 Cafodd yr achosion a ganlyn eu hystyried yn ystod cyfnod yr adroddiad:

PDC(2) 2004-03

– Apêl gynllunio gan Walters Mining Ltd ar gyfer y bwriad i adfer tir diffaith ynghyd â thynnu, prosesu a gwerthu glo a thywodfaen yn Winch Fawr West, Winch Fawr Road, Heolgerrig, Merthyr Tudful. **Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor â phenderfyniad yr Arolygydd i wrthod caniatâd.**

– Gorchymyn Cefnenni Tywod Scarweather ar gyfer adeiladu fferm wynt ar y môr a gwaith cysylltiedig yng Nghefnenni Tywod Scarweather ym Mae Abertawe oddi ar Bort Talbot a Phorthcawl.
Penderfyniad: Anghytunodd y Pwyllgor ag Adroddiad yr Arolygydd a chaniataodd yr apêl.

PDC(2) 2004-04

– Cais cynllunio a alwyd i mewn gan Celtic Energy Ltd am estyniad arfaethedig ar gyfer safle glo brig, gyda golchfa ar y safle, wedi'i ddilyn gan waith adfer ac ôl-ofal yn East Pit, Gwauncaegurwen, ger Rhydaman.
Penderfyniad: Roedd y Pwyllgor yn unfrydol anfodlon gwneud penderfyniad yn yr achos hwn a gofynnodd am i ragor o wybodaeth gael ei darparu.

PDC(2) 2004-05

– Cais cynllunio a alwyd i mewn gan Celtic Energy Ltd am estyniad arfaethedig ar gyfer safle glo brig, gyda golchfa ar y safle, wedi'i ddilyn gan waith adfer ac ôl-ofal yn East Pit, Gwauncaegurwen, ger Rhydaman.
Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i roi caniatâd cynllunio, yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn y llythyr penderfynu.

– Apêl gynllunio gan Windjen Power Ltd ar gyfer adeiladu a gweithredu 6 generadur tyrbin gwynt a'r llwybrau cysylltiedig atynt; adeiladu 1 adeilad rheoli; mast monitro; man storio dros dro a phyllau benthyg yn Fferm Llethercynon, Garthbrengy, Aberhonddu, Powys.
Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor drwy benderfyniad y mwyafrif y dylid gwrthod yr apêl a pheidio â rhoi caniatâd cynllunio.

PDC(2) 2005-01

– Cais wedi'i alw i mewn o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Hanson Quarry Products Europe Ltd ar gyfer estyniad arfaethedig chwarel bresennol yn Chwarel St George, Nant Ddu, Llan Sain Siôr, Abergele.
Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor i roi caniatâd cynllunio, yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn y llythyr penderfynu.

– Apêl gynllunio o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Mr J Phelps ar gyfer y bwriad i adeiladu annedd breswyl ar dir oddi ar Bulwark Road, Cas-gwent ac apêl o dan adran 208 o'r Ddeddf honno gan Mr G D Phelps yn erbyn hysbysiad disodli coed ar dir oddi ar Bulwark Road, Cas-gwent.
Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor ag Adroddiad yr Arolygydd a chaniataodd yr apêl yn erbyn yr hysbysiad disodli coed a gwrthododd yr apêl o ran y bwriad i adeiladu annedd breswyl.

PDC(2) 2005-02

– Cais cynllunio a alwyd i mewn o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Miller Argent (South Wales) Ltd ar gyfer Cynllun Adfer Tir Ffos-y-fran, sy'n cynnwys cloddio am lo brig. Hwn yw rhan olaf Cynllun Adfer Tir Dwyrain Merthyr.
Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor ag Adroddiad yr Arolygydd i roi caniatâd cynllunio.

4.2 Ceir copïau o Adroddiadau'r Arolygydd a'r llythyrau penderfynu ar gyfer yr achosion uchod ar wefan y Pwyllgor[4].

[4] http://www.cymru.gov.uk/keypubassemplandecision2/index-w.htm

ATODIAD 2

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

BLAENRAGLEN WAITH 2004-05

RHAN 1: BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL

Mis Mai 2004 tan fis Rhagfyr 2005

Cyflwyniad

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae'r Flaenraglen Waith Strategol yn pennu blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y 18 mis nesaf. Fe'i hategir gan raglenni manwl sy'n ymdrin â thymor ar y tro.

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac y mae'n cynnwys: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig, gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8, yn bennaf maent i: ddatblygu polisi; craffu ar y Gweinidog a chyrff perthnasol; a chraffu ar y ddeddfwriaeth.

Nodau

4. Gan fod gan y Pwyllgor gylch gwaith mor eang, bydd yn datblygu dull strategol i'w waith gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng pynciau'r portffolio yn ogystal â'r cyfrifoldebau.

Blaenoriaethau

5. Blaenoriaethau y Pwyllgor am y cyfnod i ddod yw:

- *Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu testunau o'r meysydd polisi canlynol:

    - Twbercwlosis mewn gwartheg;
    - Hynt y gwaith o gwrdd â thargedau 2003-04 y strategaeth gwastraff *Yn Gall Gyda Gwastraff*;
    - Amgylchedd y môr.

- *Craffu ar waith y Gweinidog (Rheol Sefydlog 9.7(ii))* – bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Gall y Pwyllgor hefyd gynnal rhai ymchwiliadau manylach.

- *Craffu ar gyrff perthnasol (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))* – bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a chyrff perthnasol eraill mewn perthynas â'u gweithgareddau ym mhortffolio yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Yn hytrach na chraffu ar eu perfformiad yn erbyn eu holl dargedau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar agweddau penodol o waith y cyrff perthnasol, neu ar weithredu ar y cyd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar adolygiadau pum mlynedd, neu eraill, y cyrff cyhoeddus.

- *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (Rheolau Sefydlog 9.8(i) a 24)* – bydd y Gweinidog yn adrodd yn rheolaidd ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar eitemau o blith yr eitemau o ddeddfwriaeth lle mae cyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu arnynt. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd, fel bo'n briodol.

- *Eitemau eraill (Rheol Sefydlog 9.8)* – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

    - *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (ii) a 21) – bydd y Pwyllgor yn mynd ati yn ystod tymor yr haf i nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

    - *cwynion* (Rheolau Sefydlog 9.8(iii) a 23) - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Rheol Sefydlog 23;

    - *penodiadau cyhoeddus* (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) a 22) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

    - *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond hoffai ofyn i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff gwaith y Pwyllgor ei arwain gan y canlynol:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Dros yr ystod o faterion o fewn ei bortffolio, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal;

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – bydd y Pwyllgor yn craffu ar rannau perthnasol o adroddiadau cynnydd blynyddol ar y camau i fodloni ymrwymiadau Cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad a Chynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad, a'r graddau y cafodd datblygu cynaliadwy ei integreiddio i waith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb, bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw penderfyniadau cyllidebol yn ategu'r gwaith o lunio polisïau cynaliadwy. Bydd argymhellion adolygiadau polisi'r Pwyllgor yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Gan fod y Gweinidog yn gyfrifol am gydgysylltu datblygu cynaliadwy, bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith datblygu polisi a chraffu manwl yn y maes hwn, megis craffu ar Gynllun Gweithredu drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar y broses o lunio dangosyddion cynaliadwyedd.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Mai 2004